**Statws** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2013 Rhif 372 (Cy.45)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Rheoliadau Cyrsiau Adsefydlu (Troseddau Yfed Perthnasol) (Cymru) 2013

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *19 Chwefror 2013* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *22 Chwefror 2013* |
| *Yn dod i rym* | |
| *Rheoliadau 1 i 4, 7(1) a (4)(a) a rheoliad 12 i'r graddau y mae'n ymwneud â rheoliad 3.* | *15 Mawrth 2013* |
| *Pob rheoliad arall, a rheoliad 12 at bob diben sy'n weddill.* | *24 Mehefin 2013* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adrannau 34B(3) a (10), 34BA(5) a 34C(4) o Ddeddf Troseddwyr Traffig Ffyrdd 1988(**1**), ac a freinir bellach ynddynt hwy(**2**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

*Rhagarweiniol*

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cyrsiau Adsefydlu (Troseddau Yfed Perthnasol) (Cymru) 2013.

(2) Mae rheoliadau 1 i 4, 7(1) a (4)(a), a rheoliad 12 i'r graddau y mae'n ymwneud â rheoliad 3,yn dod i rym ar 15 Mawrth 2013.

(3) Mae pob rheoliad arall, a rheoliad 12 at bob diben sy'n weddill, yn dod i rym ar 24 Mehefin 2013.

(4) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(**1**) 1988 p.53. Amnewidiwyd adrannau 34B, 34BA a 34C gan adran 35 o Ddeddf Diogelwch Ffyrdd 2006 (p.49). Yn rhinwedd adran 34C(3) dynodwyd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn 'appropriate national authority' mewn perthynas â rheoliadau o dan adrannau 34B, 34BA a 34C, mewn perthynas â Chymru.

(**2**) Mae'r pwerau hyn yn arferadwy gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 i'r Ddeddf honno.

**Dehongli**

**2.** Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "y cwrs" ("*the course*") yw cwrs at ddibenion adran 34A o'r Ddeddf mewn perthynas â chollfarnu person am drosedd yfed perthnasol;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Troseddwyr Traffig Ffyrdd 1988.

*Cymeradwyo cyrsiau*

**Ceisiadau am gymeradwyaeth**

**3.**—(1) Rhaid i gais am gymeradwyaeth ar gyfer cwrs fod yn ysgrifenedig, a rhaid ei gyflwyno ynghyd â pha bynnag wybodaeth y gofynnir amdani yn rhesymol gan Weinidogion Cymru.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru wrthod ystyried cais os yw'r ceisydd yn methu â chydymffurfio â gofynion paragraff (1).

**Gweinidogion Cymru**

**4.**—(1) Rhaid i Weinidogion Cymru roi penderfyniad ysgrifenedig ar bob cais am gymeradwyaeth.

(2) Pan fo Gweinidogion Cymru yn penderfynu gwrthod rhoi cymeradwyaeth ar gyfer cwrs neu'n rhoi cymeradwyaeth yn ddarostyngedig i amod, rhaid rhoi'r rhesymau dros y gwrthodiad neu dros osod yr amod, ynghyd â'r penderfyniad.

**Ffioedd**

**5.**—(1) Os yw Gweinidogion Cymru yn rhoi cymeradwyaeth ar gyfer cwrs, bydd ffi ("ffi cwblhau cwrs") a gyfrifir yn unol â pharagraff (2) yn daladwy gan ddarparwr y cwrs i Weinidogion Cymru yn unol â pharagraff (3), ac os na thelir y ffi, bydd y ffi yn adenilladwy ar unwaith fel dyled sifil.

(2) Y ffi cwblhau cwrs yw swm sy'n hafal i £7 am bob troseddwr perthnasol.

(3) Bydd y ffi cwblhau cwrs yn daladwy ar bob diwrnod perthnasol tra bo'r cwrs yn gymeradwy, ac os peidia'r cwrs â bod yn gymeradwy, bydd y ffi'n daladwy ar neu cyn y pedwerydd diwrnod ar ddeg ar ôl terfynu'r gymeradwyaeth.

(4) At ddibenion y rheoliad hwn—

(a) ystyr "diwrnod perthnasol" ("*relevant day*") yw'r diwrnod sy'n digwydd ar bob un o'r dyddiadau, 14 Ionawr, 14 Ebrill, 14 Gorffennaf a 14 Hydref mewn unrhyw flwyddyn benodol;

(b) ystyr "troseddwr perthnasol" ("*relevant offender*"), mewn perthynas â chwrs cymeradwy, yw person sydd wedi cwblhau'r cwrs hwnnw yn ystod y cyfnod perthnasol; ac

(c) ystyr "cyfnod perthnasol" ("*relevant period*") yw'r cyfnod o dri mis sy'n diweddu ar 31 Mawrth, 30 Mehefin, 30 Medi neu 31 Rhagfyr, ac sy'n digwydd yn union o flaen y diwrnod perthnasol.

**Tynnu cymeradwyaeth yn ôl**

**6.**—(1) Caiff Gweinidogion Cymru dynnu yn ôl eu cymeradwyaeth ar gyfer cwrs os bodlonir hwy fod darparwr y cwrs—

(a) wedi methu â bodloni amod a osodwyd ar y gymeradwyaeth i'r cwrs;

(b) wedi anwybyddu canllawiau a roddwyd o dan adran 34C(1) o'r Ddeddf; neu

(c) wedi peidio â bod yn berson priodol i ddarparu'r cwrs neu wedi peidio â gweinyddu'r ddarpariaeth o'r cwrs yn effeithlon neu'n effeithiol.

(2) Os oes bwriad gan Weinidogion Cymru i dynnu'n ôl eu cymeradwyaeth ar gyfer cwrs, rhaid iddynt roi hysbysiad ysgrifenedig o'u bwriad i ddarparwr y cwrs, gan ddatgan—

(a) y rhesymau dros eu bwriad; a

(b) bod hawl gan ddarparwr y cwrs i wneud sylwadau ynglŷn â'r bwriad.

(3) Pan fo Gweinidogion Cymru yn rhoi hysbysiad i ddarparwr y cwrs o dan baragraff (2)—

(a) caiff y person hwnnw, ddim hwyrach na'r cyfnod o 28 diwrnod sy'n cychwyn gyda'r diwrnod y rhoddwyd yr hysbysiad o dan baragraff (2), gyflwyno sylwadau ysgrifenedig i Weinidogion Cymru ynglŷn â'u bwriad;

(b) rhaid i Weinidogion Cymru beidio â phenderfynu a fyddant yn tynnu'r gymeradwyaeth yn ôl ai peidio tan ar ôl i'r cyfnod y cyfeirir ato yn is-baragraff (a) ddod i ben; ac

(c) os gwneir unrhyw sylwadau o'r fath o fewn y cyfnod y cyfeirir ato yn is-baragraff (a) rhaid i Weinidogion Cymru gymryd y sylwadau hynny i ystyriaeth cyn penderfynu a fyddant yn tynnu'r gymeradwyaeth yn ôl ai peidio.

(4) Rhaid i Weinidogion Cymru, wrth wneud penderfyniad i dynnu'n ôl y gymeradwyaeth ar gyfer cwrs, roi hysbysiad ysgrifenedig i ddarparwr y cwrs, a rhaid i'r hysbysiad hwnnw ddatgan—

(a) y dyddiad y bydd tynnu'n ôl y gymeradwyaeth yn cael effaith, sef ddim llai na 14 diwrnod ar ôl y dyddiad y rhoddir yr hysbysiad, yn ddarostyngedig i reoliad 7(3);

(b) y rhesymau dros y penderfyniad i dynnu'n ôl y gymeradwyaeth; ac

(c) bod hawl gan ddarparwr y cwrs i apelio i Dribiwnlys yr Haen Gyntaf o dan reoliad 7(2)(a).

(5) Nid yw paragraffau (2) i (4) yn gymwys os yw Gweinidogion Cymru—

(a) wedi eu bodloni, oherwydd camymddygiad difrifol gan ddarparwr y cwrs neu gan berson sy'n gweithredu ar ran, neu o dan gyfarwyddyd, darparwr y cwrs, bod rhaid tynnu'r gymeradwyaeth yn ôl ar unwaith; a

(b) yn cyflwyno hysbysiad ysgrifenedig i'r perwyl hwnnw i ddarparwr y cwrs, gan ddatgan—

(i) natur y camymddygiad; a

(ii) hawl darparwr y cwrs i—

(aa) apelio i Dribiwnlys yr Haen Gyntaf o dan reoliad 7(2)(b); a

(bb) gwneud cais i'r Tribiwnlys hwnnw am adfer y gymeradwyaeth.

(6) Ceir rhoi hysbysiad o dan baragraff (2), (4) neu (5)(b) drwy ei ddanfon at ddarparwr y cwrs, ei adael yn y cyfeiriad olaf sy'n hysbys ar gyfer darparwr y cwrs, neu ei anfon drwy'r post at ddarparwr y cwrs.

### Apelau

**7.**—(1) Pan fo person wedi gwneud cais am gymeradwyaeth ar gyfer cwrs, a'r cais hwnnw—

(a) wedi ei wrthod, neu

(b) wedi ei gymeradwyo yn ddarostyngedig i amodau,

caiff y person hwnnw apelio i Dribiwnlys yr Haen Gyntaf yn erbyn penderfyniad Gweinidogion Cymru.

(2) Caiff darparwr y cwrs apelio i Dribiwnlys yr Haen Gyntaf yn erbyn penderfyniad Gweinidogion Cymru pan fo hysbysiad sy'n tynnu'n ôl y gymeradwyaeth ar gyfer cwrs wedi ei gyflwyno o dan—

(a) rheoliad 6(4); neu

(b) rheoliad 6(5)(b).

(3) Os gwneir apêl o dan baragraff (2)(a) o fewn 14 diwrnod ar ôl y dyddiad y rhoddwyd hysbysiad o dan reoliad 6(4), bydd yr hysbysiad o dynnu'r gymeradwyaeth yn ôl yn cael ei atal hyd nes gwneir penderfyniad ar y mater gan Dribiwnlys yr Haen Gyntaf.

(4) Yn yr apêl, caiff Tribiwnlys yr Haen Gyntaf wneud y cyfryw orchymyn yr ystyria'n briodol—

(a) os gwnaed yr apêl o dan baragraff (1), gan ganiatáu'r cais (yn ddarostyngedig i amodau neu hebddynt) neu ei wrthod, neu

(b) os gwnaed yr apêl o dan baragraff (2), gan dynnu'r gymeradwyaeth yn ôl, neu adfer neu barhau'r gymeradwyaeth (yn ddarostyngedig i amodau neu hebddynt).

*Cynnal cyrsiau*

### Ffioedd am gyrsiau

**8.**—(1) Isafswm y ffi y caiff darparwr cwrs ei gwneud yn ofynnol bod person yn ei thalu am fod yn bresennol ar gwrs yw £150. Uchafswm y ffi y caiff darparwr cwrs ei gwneud yn ofynnol bod person yn ei thalu am fod yn bresennol ar gwrs yw £250.

(2) Caiff darparwr cwrs godi'r ffi presenoldeb naill ai ymlaen llaw neu mewn rhandaliadau.

(3) Rhaid i'r ffi presenoldeb gael ei thalu'n llawn cyn i'r person sy'n dilyn y cwrs ei gwblhau.

### Monitro cyrsiau a darparwyr cyrsiau

**9.**—(1) Rhaid i ddarparwr cwrs, os gofynnir iddo gan Weinidogion Cymru, ddarparu i Weinidogion Cymru—

(a) pa bynnag wybodaeth ynghylch trefniadau gweinyddol darparwr y cwrs ac ynghylch cynnal y cyrsiau, y gofynnir amdani yn rhesymol gan Weinidogion Cymru, ym mha bynnag fodd a fynnir yn rhesymol gan Weinidogion Cymru; a

(b) cofnodion neu ddogfennau eraill (ym mha bynnag ffurf y'u cedwir) a gedwir at y dibenion o gydymffurfio ag adrannau 34A i 34C o'r Ddeddf ac â'r Rheoliadau hyn.

(2) Rhaid i'r wybodaeth neu'r dogfennau (yn ôl fel y digwydd) y gofynnir amdanynt o dan baragraff (1) gael eu darparu gan ddarparwr y cwrs o fewn pa bynnag derfyn amser a bennir yn rhesymol gan Weinidogion Cymru, neu, os na phennir terfyn amser, cyn gynted ag y bo'n rhesymol bosibl.

### Cwblhau cwrs

**10.** Y dystysgrif y cyfeirir ati yn adran 34B(1) o'r Ddeddf yw tystysgrif yn y ffurf a osodir yn Atodlen 1.

**11.** Mae hysbysiad o dan adran 34B(5) o'r Ddeddf—

(a) yn hysbysiad yn y ffurf a osodir yn Atodlen 2; a

(b) i'w drin fel pe bai wedi ei roi i berson os—

(i) cyfeiriwyd yr hysbysiad at y person hwnnw yn y cyfeiriad olaf sy'n hysbys ar ei gyfer,

(ii) anfonwyd yr hysbysiad drwy'r post i'r cyfeiriad hwnnw, a

(iii) ardystiwyd ei bostio felly gan y cludydd,

hyd yn oed os dychwelir yr hysbysiad fel eitem nas danfonwyd, neu nas derbyniwyd gan y person hwnnw am unrhyw reswm arall.

*Cyhoeddi gwybodaeth*

**Gwybodaeth am gyrsiau a darparwyr cyrsiau**

**12.** Caiff Gweinidogion Cymru gyhoeddi gwybodaeth a ddaeth i feddiant Gweinidogion Cymru fel yr awdurdod cenedlaethol priodol, am ddarparwyr y cyrsiau, neu am gynnwys neu gost y cyrsiau, neu'r dulliau o gynnal y cyrsiau, boed hynny o dan reoliad 3 neu 9 neu rywfodd arall.

*Carl Sargeant*
Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru

19 Chwefror 2013

ATODLEN 1

Rheoliad 10

Ffurf Tystysgrif o Gwblhau Cwrs

Rhif Cyfresol

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Tystysgrif Cwblhau

**Dyroddir y dystysgrif hon o dan adran 34B(1) o Ddeddf Troseddwyr Traffig Ffyrdd 1988**

**Manylion y Cyfranogwr yn y Cynllun**

Dyddiad Geni

Name

Address

Rhyw (X) G B

**Manylion y Llys Goruchwyliol**

Enw'r Llys

Cyfeiriad

Rhif yr achos

**Manylion y Cwrs Cymeradwy**

Dyddiad y rhoddwyd y ddedfryd

Dyddiad y mae'n rhaid cwblhau'r cwrs

Enw trefnydd y cwrs

Rhif ffôn cyswllt

**Ardystiad**

Mae'r person a enwir uchod wedi cwblhau'r cwrs cymeradwy yn llwyddiannus

| | |
|---|---|
| Llofnodwyd gan, neu ar ran, trefnydd y cwrs | |
| Enw mewn priflythrennau | |
| Dyddiad | |

ATODLEN 2

Rheoliad 11(a)

Ffurf Hysbysiad o Fethiant i Gwblhau Cwrs

Rhif Cyfresol

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Deddf Troseddwyr Traffig Ffyrdd 1988 - Cyrsiau i Droseddwyr Yfed a Gyrru**

# Hysbysiad o Fethiant i Gwblhau

**Dyroddir yr hysbysiad hwn o dan adran 34B(5) o Ddeddf Troseddwyr Traffig Ffyrdd 1988**

**Manylion y Cyfranogwr yn y Cynllun**

Enw

Dyddiad Geni

Cyfeiriad

Rhyw (X) G B

**Manylion y Llys Goruchwyliol**

Enw'r Llys

Cyfeiriad

Rhif yr achos

**Manylion y Cwrs Cymeradwy**

Dyddiad y rhoddwyd y ddedfryd

Dyddiad y mae'n rhaid cwblhau'r cwrs

Enw trefnydd y cwrs

Rhif ffôn cyswllt

**Rhesymau dros y Penderfyniad**

Rhaid i ddarparwr cwrs roi tystysgrif cwblhau o fewn 14 diwrnod, fan hwyraf, ar ôl y dyddiad olaf ar gyfer cwblhau'r cwrs (a nodir ar gefn y ddalen hon) oni fydd y troseddwr: (X)

| | |
|---|---|
| wedi methu â thalu'r ffioedd sy'n daladwy am y cwrs | ☐ |
| wedi methu â bod yn bresennol ar y cwrs yn unol â chyfarwyddiadau rhesymol darparwr y cwrs | ☐ |
| wedi methu â chydymffurfio ag unrhyw ofyniad rhesymol arall darparwr y cwrs | ☐ |

**Datganiad manwl o'r rhesymau:**

**Ardystiad**

| | |
|---|---|
| Llofnodwyd gan, neu ar ran, trefnydd y cwrs | |
| Enw mewn priflythrennau | |
| Dyddiad | |

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ynghylch cyrsiau adsefydlu i rai a fu'n gyrru ac yfed, ac maent yn gymwys o ran Cymru. Gall y cyrsiau hyn fod yn destun gorchymyn llys, y gellir lleihau cyfnod o anghymhwysiad am droseddau yfed a gyrru oddi tano, os yw'r troseddwr yn cwblhau cwrs cymeradwy yn llwyddiannus. Y darpariaethau statudol perthnasol yw adrannau 34A i 34C o Ddeddf Troseddwyr Traffig Ffyrdd 1988 fel y'u hamnewidiwyd gan adran 35 o Ddeddf Diogelwch Ffyrdd 2006.

Cychwynnir y rheoliadau hynny sy'n ymwneud â cheisiadau am gymeradwyaeth, cymeradwyo ac apelau yn erbyn gwrthod cymeradwyo neu gymeradwyo yn amodol ar 15 Mawrth 2013, sef yn gynharach na gweddill y Rheoliadau, fel y bo cyrsiau cymeradwy ar gael i fod yn destun gorchmynion llys a wneir ar, neu ar ôl 24 Mehefin 2013.

Mae rheoliad 3 yn darparu ar gyfer gwneud cais i Weinidogion Cymru am gymeradwyo cwrs adsefydlu.

Mae rheoliad 4 yn gwneud darpariaeth ynghylch penderfyniad Gweinidogion Cymru ar gais o'r fath.

Mae rheoliad 5 yn darparu ar gyfer talu ffioedd. Mae ffioedd yn daladwy gan geiswyr llwyddiannus ar ôl y rhoddir cymeradwyaeth o'u cyrsiau. Bydd y ffioedd cwblhau cyrsiau yn ôl-daladwy bob chwarter, a chyfrifir hwy yn ôl nifer y personau ("troseddwyr") a fydd wedi cwblhau'r cwrs yn llwyddiannus yn ystod y chwarter blaenorol. Y ffi a osodir yw £7 am bob troseddwr.

Mae rheoliad 6 yn darparu ar gyfer tynnu yn ôl gymeradwyaeth cyrsiau os digwydd i ddarparwr cwrs fethu â chydymffurfio ag amod y gymeradwyaeth, anwybyddu canllawiau, neu beidio â bod yn berson priodol i ddarparu'r cwrs, neu beidio â gweinyddu'r ddarpariaeth o'r cwrs yn effeithlon neu'n effeithiol. Ac eithrio pan fo Gweinidogion Cymru o'r farn bod darparwr cwrs, neu berson sy'n gweithredu gydag awdurdod y darparwr, wedi bod yn euog o gamymddwyn difrifol sy'n teilyngu tynnu'r gymeradwyaeth yn ôl ar unwaith, rhaid rhoi hysbysiad yn gyntaf i rybuddio'r darparwr, a rhoi cyfle iddo ymateb i'r bwriad i dynnu'r gymeradwyaeth yn ôl. Rhaid i bob hysbysiad ynghylch tynnu'n ôl a roddir gan Weinidogion Cymru nodi'r rheswm dros dynnu'n ôl, ac os yw'n briodol, natur unrhyw gamymddygiad difrifol.

Mae rheoliad 7 yn darparu ar gyfer apelau yn erbyn gwrthod cais am gymeradwyaeth, gosod amod ar roi'r gymeradwyaeth, neu dynnu cymeradwyaeth yn ôl. Rhaid gwneud apelau o fewn cyfnod penodedig i Dribiwnlys yr Haen Gyntaf, sydd â'r pŵer i wneud pa bynnag orchymyn yr ystyria'n briodol.

Mae rheoliad 8 yn rhagnodi lleiafswm ffi cwrs o £150 ac uchafswm ffi cwrs o £250, ac yn pennu pa bryd a sut y dylid talu ffioedd cwrs.

Mae rheoliad 9 yn caniatáu i Weinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol bod darparwyr cyrsiau yn darparu gwybodaeth am y modd y gweinyddir ac y cynhelir eu cyrsiau, a'r modd y maent yn cydymffurfio ag adrannau 34A i 34C o Ddeddf Troseddwyr Traffig Ffyrdd 1988 a'r Rheoliadau hyn.

Mae rheoliadau 10 ac 11 yn rhagnodi ffurf tystysgrif o gwblhau cwrs a ffurf hysbysiad o fethiant i gwblhau, a hefyd yr amgylchiadau pan fydd rhaid ystyried bod hysbysiad o'r fath wedi ei roi.

Mae rheoliad 12 yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyhoeddi gwybodaeth ynglŷn â chyrsiau (yn ddi-dâl), gan gynnwys eu cost.

Paratowyd asesiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copïau oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.